



BWRDD DIOGELU CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU CYSUR & CWMPAS THE MID & WEST WALES SAFEGUARDING BOARD

CYNLLUN BLYNYDDOL 2018-19 ANNUAL PLAN



CYFLWYNIAD

Mae CYSUR: Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru a CWMPAS: Bwrdd Diogelu Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru, wedi sefydlu a datblygu perthynas waith gydweithredol gref yn y ddwy flynedd flaenorol. Mae hyn, ynghyd â'r awydd a'r ymrwymiad i symud tuag at agenda diogelu pobl pob oedran, sy'n fwy integredig, wedi galluogi CYSUR a CWMPAS i gyhoeddi un cynllun strategol cyffredinol ar gyfer 2018-19, gan gynnwys nifer o ganlyniadau strategol ac amcanion â blaenoriaeth sydd wedi'u nodi a chael cytundeb ar y cyd.

Felly, mae'n rhoi pleser mawr i ni gyhoeddi ar y cyd, ail gynllun strategol blynyddol Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer 2018-19. Rydym yn freintiedig fel Cadeiryddion Byrddau CYSUR a CWMPAS i barhau i wasanaethu dinasyddion a chymunedau amrywiol rhanbarthau Canolbarth a Gorllewin Cymru sy'n cynnwys Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Phowys, wrth arwain a chyflawni amcanion y Bwrdd fel y nodir yn Rhan 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, i amddiffyn ac atal plant ac oedolion yn y rhanbarth rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso, a mathau eraill o niwed.

Bydd canlyniadau strategol a nodwyd gan y Bwrdd yn galluogi ei aelodau a'i asiantaethau partner i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol ac adeiladu ar y cynnydd ardderchog a wnaed gan Fyrddau CYSUR a CWMPAS trwy gydol 2017-18, yng nghyd-destun partneriaeth gref a gwaith aml-asiantaeth.

Mae hyrwyddo Lles pobl Canolbarth a Gorllewin Cymru, a'u galluogi i gyflawni canlyniadau gwell, yn parhau i fod yn ganolog i waith y Bwrdd.



Jake Morgan (Cadeirydd CYSUR)
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau
Cymunedol, Cyngor Sir Caerfyrddin



Jonathan Griffiths (Cadeirydd CWMPAS)
Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol,
Cyngor Sir Penfro



EIN GWELEDIGAETH

Gweledigaeth Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yw bod pob un o bobl y rhanbarth yn byw eu bywydau heb drais, camdriniaeth, esgeulustod a cham-fanteisio, a bod eu hawliau yn cael eu hamddiffyn. Mae'r holl waith diogelu yn sensitif i ac wedi'i wreiddio'n gadarn mewn rhoi parch i wahaniaethau o ran hil, ethnigrwydd, diwylliant, gallu, ffydd a chyfeiriadedd rhywiol. Mae ymgysylltu gyda a bod yn ymatebol i anghenion yr holl randdeiliaid, gan gynnwys oedolion sydd mewn perygl, gofalwyr, darparwyr gwasanaethau a'r gymuned ehangach, yn hanfodol er mwyn hyrwyddo gweledigaeth y Bwrdd. Mae ymgysylltu gyda a bod yn ymatebol i anghenion yr holl randdeiliaid, gan gynnwys plant, phobl ifanc, oedolion sydd mewn perygl, eu teuluoedd, gofalwyr, darparwyr gwasanaethau a'r gymuned ehangach, yn hanfodol er mwyn hyrwyddo gweledigaeth y Bwrdd.

Aelodaeth Bwrdd Gweithredol Canolbarth a Gorllewin Cymru

 CWMPAS (Bwrdd Diogelu Oedolion)	 CYSUR (Bwrdd Diogelu Plant)
Jonathan Griffiths (Cadeirydd) Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol, Cyngor Sir Penfro	Jake Morgan (Cadeirydd) Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol, Cyngor Sir Caerfyrddin
Anthony Griffiths (Is-gadeirydd) Uwch-arolygydd, Heddlu Dyfed Powys	Sian Passey (Is-gadeirydd) Cyfarwyddwr Cynorthwyol Sicrwydd Nyrsio A Diogelu Nyrsio Corfforedig, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Jake Morgan Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol, Cyngor Sir Caerfyrddin	Jonathan Griffiths Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol, Cyngor Sir Penfro
Sue Darnbrook Cyfarwyddwr Strategol: Gofal, Diogelu a Ffordd o Fyw Cyngor Sir Ceredigion	Sue Darnbrook Cyfarwyddwr Strategol: Gofal, Diogelu a Ffordd o Fyw Cyngor Sir Ceredigion
Phil Evans Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Dros Dro, Cyngor Sir Powys	Phil Evans Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Dros Dro, Cyngor Sir Powys
Sian Passey Cyfarwyddwr Cynorthwyol Sicrwydd Nyrsio A Diogelu Nyrsio Corfforedig, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	Anthony Griffiths Uwch-arolygydd, Heddlu Dyfed Powys
Avril Bracey Pennaeth Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu a Diogelu Oedolion, Cyngor Sir Caerfyrddin	Stefan Smith Pennaeth Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir Caerfyrddin
Carys James Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Rhai a Gomisiynwyd, Cyngor Sir Ceredigion	Elfed Hopkins Pennaeth Gwasanaethau Teuluoedd a Phlant, Cyngor Sir Ceredigion
Jason Bennett Pennaeth Gwasanaethau Oedolion, Cyngor Sir Penfro	Anthony Maynard Pennaeth Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir Penfro
Louise Barry Pennaeth Gwasanaethau Oedolion, Cyngor Sir Powys	David Johnston Pennaeth Gwasanaethau Plant Dros Dro, Cyngor Sir Powys
Christine Harley Prif Weithredwr Cynorthwyol, Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol	Christine Harley Prif Weithredwr Cynorthwyol, Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Deanne Martin Prif Weithredwr Cynorthwyol, Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru	Deanne Martin Prif Weithredwr Cynorthwyol, Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru
Mandy Rayani Cyfarwyddwr Nyrsio, Ansawdd a Phrofiad y Claf, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	Mandy Rayani Cyfarwyddwr Nyrsio, Ansawdd a Phrofiad y Claf, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Rhiannon Beaumont-Wood Cyfarwyddwr Nyrsio, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	Rhiannon Beaumont-Wood Cyfarwyddwr Nyrsio, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Nicola Edwards Pennaeth Diogelu Oedolion a Phlant (Nyrs Benodol), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	Nicola Edwards Pennaeth Diogelu Oedolion a Phlant (Nyrs Benodol), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Sonia Mason Cyfarwyddwr Cynorthwyol Diogelu (Nyrs Benodol), Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	Sonia Mason Cyfarwyddwr Cynorthwyol Diogelu (Nyrs Benodol), Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Karen Toohey Nyrs Ddynodedig, Tîm Diogelu Cenedlaethol (GIG Cymru), Iechyd Cyhoeddus Cymru	Karen Toohey Nyrs Ddynodedig, Tîm Diogelu Cenedlaethol (GIG Cymru), Iechyd Cyhoeddus Cymru
Nikki Harvey Pennaeth Diogelu, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru	Nikki Harvey Pennaeth Diogelu, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
Hazel Lloyd-Lubran Cynrychiolydd Rhanbarthol y Trydydd Sector, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO)	Hazel Lloyd-Lubran Cynrychiolydd Rhanbarthol y Trydydd Sector, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO)
Chris Harrison Cynrychiolydd rhanbarthol ar gyfer y Penaethiaid Comisiynu	Steve Davis Cynrychiolydd rhanbarthol o Reolwyr Cyfiawnder Ieuencid
	Kate Evan-Hughes Cynrychiolydd rhanbarthol y Cyfarwyddwyr Addysg
	Dr Ingrid Prosser Meddyg Penodol, Amddiffyn Plant, Pencadlys Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
	Dr Velupillai Vipulendran Meddyg Penodol, Amddiffyn Plant, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Uned Fusnes Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru

Julie Breckon Rheolwr Busnes
Wendy Butcher Cydgysylltydd Busnes
Elizabeth Thomas Cymorth Busnes

CANLYNIADAU Â BLAENORIAETH STRATEGOL A NODWYD AR GYFER 2018-19

1. **Gwell Ymgysylltiad:** Dangos bod llais plant ac oedolion sy'n cael eu heffeithio gan waith y Bwrdd yn ganolog i'n gwaith a bod barn plant, pobl ifanc, oedolion sydd mewn perygl, eu teuluoedd ac ymarferwyr rheng flaen yn llywio ymarfer ac yn siapio gwasanaethau
2. **Dysgu Systematig:** I barhau i ddatblygu a gwella'r ffordd rydym yn gweithio fel bod canlyniadau plant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl yn gwella
3. **Gwybodaeth a Sgiliau Cynyddol:** Sicrhau ein bod yn gwybod am y bobl sydd fwyaf mewn perygl yn ein rhanbarth a'u diogelu'n effeithiol
4. **Arweinyddiaeth, Dylanwad a Her Gref:** Darparu arweinyddiaeth strategol gadarn a her effeithiol ar draws y bartneriaeth, a dylanwadu ar yr agenda cenedlaethol mewn perthynas â blaenoriaethau diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mae'r ffordd rydym yn bwriadu cyflawni'r canlyniadau hyn a'r crynodeb o welliannau rydym yn cynnig eu gwneud i'n galluogi i gyflawni ein hamcanion, wedi'u rhestru yn ein Cynllun Busnes isod.

1. Gwell Ymgysylltu: Dangos bod llais plant ac oedolion a effeithir gan waith y Bwrdd yn ganolog i'n gwaith a bod barn oedolion sydd mewn perygl, eu teuluoedd ac ymarferwyr rheng flaen yn llywio arferion a gwasanaethau siâp

Amcanion ein canlyniadau:	Pa welliannau sydd angen i ni eu gwneud i gyflawni ein hamcanion:	Sut byddwn yn mesur llwyddiant:
<p>1.1 Mae'r Bwrdd yn rhagweithiol wrth ymgynghori ac ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a grwpiau cymunedol ynglŷn â'u profiadau o ymarferion diogelu</p>	<ul style="list-style-type: none"> Blaenoriaethu ymgysylltu ac ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth ag anawsterau iechyd meddwl ac anawsterau dysgu, oedolion sy'n goroesi cam-drin domestig (VAWDASV) a phobl hŷn sy'n agored i niwed Sicrhau bod llais defnyddwyr gwasanaeth a grwpiau cymunedol yn cael ei glywed ac yn hysbysu ymarfer diogelu Ymgynghori â Bwrdd Diogelu Iau CADW (JSB) a gofyn am gyngor ganddynt ar ffyrdd effeithiol o ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau sy'n oedolion 	<ul style="list-style-type: none"> Datblygu rhaglen ymgysylltu a chyfranogi ranbarthol gyda defnyddwyr gwasanaeth Cyfranogi ac Ymgysylltu yn thema ranbarthol allweddol ar gyfer Wythnos Genedlaethol Diogelu 2018 Proses ymgynghori sy'n cynnwys mewnbwn defnyddwyr gwasanaeth yn cael ei sefydlu
<p>1.2 Mae'r berthynas rhwng yr Uwch Fwrdd Gweithredol a Bwrdd CADW Iau wedi'i hatgyfnerthu ac mae llinellau cyfathrebu yn cael eu cryfhau</p>	<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod gwaith parhaus JSB CADW yn canolbwyntio'n fwy ar ddatblygu cynllun gwaith wedi'i dargedu, sy'n effeithio ar flaenoriaethau strategol yr Uwch Fwrdd Gwella cyfathrebu rhwng JSB CADW a grwpiau iau diogelu lleol, er mwyn sicrhau gwell cydlynid ac alinio ffrydiau a phrosiectau gwaith 	<ul style="list-style-type: none"> Mae cynllun gwaith wedi'i dargedu a ddatblygwyd gan JSB CADW yn cyd-fynd â blaenoriaethau strategol yr Uwch Fwrdd JSB CADW yn cymryd rhan weithredol yn Wythnos Genedlaethol Diogelu Presenoldeb cyfryngau cymdeithasol y Bwrdd yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gyfathrebu a hyrwyddo gwaith JSB CADW i bobl ifanc
<p>1.3 Mae aelodau o'r cyhoedd, grwpiau cymunedol ac ymarferwyr rheng flaen yn fwy ymwybodol o'r Bwrdd a'i swyddogaethau</p>	<ul style="list-style-type: none"> Gwella llwybrau cyfathrebu i hwyluso'r gwaith o ledaenu gwybodaeth am ddiogelu gyda'r Awdurdod Lleol a thimau cyfathrebu asiantaethau partner Datblygu newyddlen Bwrdd Diogelu Rhanbarthol i'w chyhoeddi'n rheolaidd i hyrwyddo gwaith y Bwrdd Datblygu llenyddiaeth a gwybodaeth i godi ymwybyddiaeth o'r Bwrdd a'i waith 	<ul style="list-style-type: none"> Hyrwyddo gwybodaeth, digwyddiadau a gweithgareddau'r Bwrdd yn eang mewn rhwydweithiau cyfathrebu staff mewnol Cyhoeddi newyddlen y Bwrdd Datblygu llenyddiaeth am y Bwrdd Presenoldeb ar-lein a chyfryngau cymdeithasol y Bwrdd yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gyfathrebu materion diogelu i'r cyhoedd

1.4 Mae cysylltiadau gyda fforymau neu bartneriaethau cenedlaethol a rhanbarthol eraill yn cael eu cryfhau	<ul style="list-style-type: none"> • Gwella'r rhyng-gysylltiad rhwng y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol (RSB) a'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol (BIP) a'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB) 	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfathrebu rheolaidd rhwng RSB ac RPB • Sefydlu cysylltiadau cyfathrebu rhwng RSB a PSB • Pob cynllun strategol blynyddol rhanbarthol wedi'i adolygu i nodi meysydd cydweithio • Cyfranogiad y Bwrdd mewn gwaith/digwyddiadau NISB • Gwell ymwybyddiaeth o Gaethwasiaeth Fodern ar draws y rhanbarth
	<ul style="list-style-type: none"> • Nodi unrhyw gyfleoedd ar gyfer cydweithio â fforymau neu bartneriaethau eraill 	
	<ul style="list-style-type: none"> • Parhau i gryfhau'r berthynas â'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (NISB) a chefnogi gwaith parhaus yn yr agenda diogelu cenedlaethol 	
	<ul style="list-style-type: none"> • Gwella ymgysylltiad â fforymau Caethwasiaeth Fodern rhanbarthol a chodi ymwybyddiaeth o sut i adnabod y grŵp diamddiffyn hwn yn y rhanbarth 	

2. Dysgu Systematig: Datblygu'n barhaus a gwella'r ffordd yr ydym yn gweithio er mwyn i ganlyniadau ar gyfer plant ac oedolion sydd mewn perygl wella

Amcanion ein canlyniadau:	Pa welliannau sydd angen i ni eu gwneud i gyflawni ein hamcanion:	Sut byddwn yn mesur llwyddiant:
2.1 Mae gwersi a nodwyd o Adolygiadau Ymarfer wedi'u cwblhau yn cael eu deall a'u lledaenu'n eang	<ul style="list-style-type: none"> Cryfhau sut y cynhelir Adolygiadau Ymarfer a bod Paneli Adolygu Ymarfer yn cael eu rheoli'n gyson o fewn y rhanbarth Gwella'r broses o ledaenu gwersi a ddysgwyd i ymarferwyr rheng flaen a rheolwyr 	<ul style="list-style-type: none"> Defnyddir sesiynau briffio ymarferwyr a rheolwyr i ystyried gwersi o Adolygiadau Ymarfer Caiff gwersi o Adolygiadau Ymarfer Rhanbarthol a Chenedlaethol eu dosbarthu a'u rhannu Mae llenyddiaeth ranbarthol i gryfhau'r broses Adolygu Ymarfer ar gael
2.2 Mae diwylliant o ddysgu parhaus wedi'i ymgorffori ar draws y rhanbarth	<ul style="list-style-type: none"> Gweithredu'r fframwaith a'r broses Fforwm Proffesiynol Aml-asiantaethol (MAPF) rhanbarthol Nodi cyfleoedd ar gyfer dysgu ar y cyd a dysgu a rennir trwy alinio'r prosesau Adolygu Ymarfer ac Adolygu Dynladdiadau Domestig (DHR) yn well Rhannu a lledaenu canlyniadau dysgu o archwiliadau a gynhelir fel rhan o raglen archwilio Bwrdd i ymarferwyr rheng flaen 	<ul style="list-style-type: none"> Mae Fforwm Rhanbarthol MAPF yn hybu, yn goruchwylio ac yn monitro MAPF ar draws y rhanbarth Mae proses rhyng-gysylltu Adolygiad Ymarfer/DHR rhanbarthol yn nodi cyfleoedd dysgu ar y cyd ac a rennir Rhennir canlyniadau dysgu o archwiliadau rhanbarthol a lleol gydag ymarferwyr rheng flaen ar draws y rhanbarth
2.3 Strategaeth hyfforddi ranbarthol gyda chynlluniau hirdymor i wella cyfleoedd dysgu ar gyfer diogelu	<ul style="list-style-type: none"> Nodi cyfleoedd i wella dysgu aml-asiantaethol a rhannu ar draws y rhanbarth Archwilio prosiectau cydweithredol i wella hyfforddiant diogelu yn y dyfodol ar draws y rhanbarth 	<ul style="list-style-type: none"> Lansio Strategaeth Hyfforddiant 5 mlynedd ranbarthol
2.4 Mae Fframwaith Sicrhau Ansawdd a Chofnodi Perfformiad Rhanbarthol (QAaPR) yn rhoi cyfres ddata amlasiantaethol rhanbarthol cadarn	<ul style="list-style-type: none"> Adolygu dehongliad lleol o gyfresi data rhanbarthol i nodi anghysondebau wrth gasglu ac egluro er mwyn sicrhau aliniad rhanbarthol Datblygu'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd a Chofnodi Perfformiad rhanbarthol ymhellach, i gynnwys gwybodaeth amlasiantaethol Gwella dadansoddiad a chyflwyno data i ganolbwyntio'n well ar ganlyniadau 	<ul style="list-style-type: none"> Caiff data ei gasglu'n gyson gan ganiatáu cymhariaeth ranbarthol effeithiol Mae'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd a Chofnodi Perfformiad Rhanbarthol yn adlewyrchu'r bartneriaeth ehangach Mae data rhanbarthol ystyrlon yn dynodi meysydd risg ac yn llywio gwelliannau ymarfer

3. Gwybodaeth a Sgiliau Cynyddol: Sicrhau ein bod yn gwybod am y bobl sydd fwyaf mewn perygl yn ein rhanbarth ac yn eu diogelu yn effeithiol

Amcanion ein canlyniadau:	Pa welliannau sydd angen i ni eu gwneud i gyflawni ein hamcanion:	Sut byddwn yn mesur llwyddiant:
3.1 Rydym yn ymwybodol o gryfderau, gwendidau a chynaliadwyedd ein gweithlu diogelu rhanbarthol	<ul style="list-style-type: none"> Cynnal ymarfer archwilio rhanbarthol sy'n mynd at wraidd y mater, mewn perthynas â datblygu'r gweithlu a chynaliadwyedd ar draws gwasanaethau a thimau diogelu'r pedwar Awdurdod Lleol Adolygu'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd a Chofnodi Perfformiad rhanbarthol er mwyn nodi gwendidau'n well o fewn gwasanaethau diogelu a grwpiau staff 	<ul style="list-style-type: none"> Rydym yn gwybod mwy am ein gweithlu diogelu rhanbarthol Amlygir gwendidau'r gweithlu fel rhan o'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd a Chofnodi Perfformiad
3.2 Mae ymchwil a wnaed gan Brifysgol Caerdydd / CASCADE i hunanladdiadau tebygol yn hysbysu gwaith atal hunanladdiadau a hunan-niweidio rhanbarthol	<ul style="list-style-type: none"> Ystyried argymhellion a amlygwyd gan yr ymchwil a wnaed gan Brifysgol Caerdydd / CASCADE i hunanladdiadau tebygol i nodi canlyniadau er mwyn i'r Bwrdd weithredu arnynt Alinio unrhyw ganlyniadau a nodwyd o'r ymchwil gyda Strategaeth Hunanladdiadau a Hunan-niweidio bresennol Canolbarth a Gorllewin Cymru Gwella llwybrau atgyfeirio a chyfeirio at wasanaethau cefnogi ehangach i'r rhai sydd mewn perygl o hunanladdiad Codi ymwybyddiaeth o ffactorau risg sy'n gysylltiedig â hunanladdiad a hunan-niweidio Gwella cyfathrebiad a chydweithrediad rhwng gwasanaethau pontio, mewn ymateb i hunanladdiadau tebygol ar gyfer oedolion ifanc Adolygu darpariaeth hyfforddiant ar draws y rhanbarth, i gael sicrwydd bod staff perthnasol â mynediad at hyfforddiant atal hunanladdiadau arbenigol, lle bo angen. 	<ul style="list-style-type: none"> Arweiniad clir o ran llwybrau atgyfeirio a chyfeirio fel bod gan y rhai sydd mewn perygl o hunanladdiad fynediad prydlon at gymorth a chefnogaeth Mae ymarferwyr rheng flaen yn fwy ymwybodol o ffactorau risg sy'n gysylltiedig â hunanladdiad a hunan-niweidio Mae hyfforddiant atal hunanladdiad arbenigol ar gael i staff perthnasol ar draws asiantaethau partner Caiff hunanladdiadau tebygol mewn oedolion ifanc eu rheoli'n ddi-dor rhwng gwasanaethau pontio
3.3 Mae Goroewyr Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) yn cael eu cefnogi'n well	<ul style="list-style-type: none"> Datblygu a chyhoeddi Strategaeth VAWDASV rhanbarthol a'r Cynllun Darparu Strategol cyffredinol 	<ul style="list-style-type: none"> Mae Strategaeth VAWDASV a'r Cynllun Darparu Strategol yn darparu canllawiau rhanbarthol cyson Pob gweithiwr proffesiynol ag ymwybyddiaeth a gwybodaeth briodol am VAWDASV Mae cefnogaeth arbenigol ar gael i blant, goreswyr a chyflawnwyr VAWDASV

<p>3.4 Mae Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion mewn Perygl yn cael eu nodi a'u hamddiffyn yn well drwy godi ymwybyddiaeth, prosesau a reolir yn gyson a goruchwyliaeth ranbarthol gadarn o wasanaethau a gomisiynir</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Gwella ymwybyddiaeth ar draws partneriaethau aml-asiantaeth o ganllawiau Adolygiad Ymarfer Oedolion (APR) a'r broses atgyfeirio • Gwella cysondeb ar draws partneriaethau aml-asiantaeth wrth gymhwyso trothwyau diogelu oedolion • Gwella goruchwyliaeth ranbarthol a monitro perfformiad darparwyr a gwasanaethau a gomisiynir • Cydweithio i nodi anghysonderau, arferion da a ffyrdd o wella prosesau Rhanbarthol Trefniadau Amddifadu Rhyddid (DoLS) • Ymgymryd ag archwiliadau rhanbarthol thematig ar ymholiadau ac ymchwiliadau Sec 47, a Galluedd Meddyliol • Gwella ymgysylltiad â fforymau Caethwasiaeth Fodern rhanbarthol a chodi ymwybyddiaeth o sut i adnabod y grŵp diamddiffyn hwn yn y rhanbarth 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae ymarferwyr rheng flaen yn deall y broses APR a'r trothwyon atgyfeirio APR yn well • Mae canllawiau trothwy diogelu oedolion rhanbarthol yn cael eu cymhwyso ar draws y rhanbarth • Mae polisi rhanbarthol ar Bryderon sy'n Dwysáu yn rhoi goruchwyliaeth gadarn ac yn monitro perfformiad darparwyr a gwasanaethau a gomisiynir • Manteisir ar gyfleoedd cydweithio rhanbarthol i wella ymarfer DoLS • Mae archwiliadau thematig ar ymholiadau Sec 47 a Galluedd Meddyliol yn amlygu anghysonderau mewn trothwyon gwneud penderfyniadau rhanbarthol
<p>3.5 Mae polisiâu a gweithdrefnau i ddiogelu grwpiau diamddiffyn a nodwyd yn well yn cael eu datblygu, eu lledaenu a'u hymgorffori mewn ymarfer rhanbarthol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cydweithio i ddileu rhwystrau a gwella'r broses o rannu gwybodaeth rhwng partneriaid y Bwrdd • Gwella'r broses o godi ymwybyddiaeth a lledaenu polisiâu a gweithdrefnau newydd i ymarferwyr rheng flaen ar draws y bartneriaeth ranbarthol • Datblygu polisiâu a gweithdrefnau er mwyn amddiffyn grwpiau diamddiffyn a nodwyd yn well • Adolygu'r prosiect ymyrraeth gynnar Gwella ar gyfer plant sy'n agored i Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE) ac Ymddygiad Rhywiol Niweidiol • Nodi, cytuno ar flaenoriaethau blynyddol VAWDASV, a'u monitro • Adolygu'r peilot Operation Encompass gyda'r bwriad o'i gyflwyno'n rhanbarthol 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae Protocol Rhannu Gwybodaeth Bwrdd yn darparu sail gyfreithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau partner • Caiff polisiâu a gweithdrefnau newydd eu dosbarthu'n gyson i ymarferwyr rheng flaen ar draws y rhanbarth • Mae gwefan y Bwrdd yn darparu canolbwynt ar gyfer yr holl bolisiâu a gweithdrefnau rhanbarthol newydd • Mae'r strategaeth CSE ranbarthol wedi'i gweithredu'n llawn a'i chynnwys yn ymarferol

4. Arweinyddiaeth, Dylanwad a Her Gref: Darparu arweinyddiaeth strategol gadarn a her effeithiol ar draws y bartneriaeth, a dylanwadu ar yr agenda cenedlaethol mewn perthynas â blaenoriaethau diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru

Amcanion ein canlyniadau:	Pa welliannau sydd angen i ni eu gwneud i gyflawni ein hamcanion:	Sut byddwn yn mesur llwyddiant:
4.1 Mae trefniadau diogelu lleol yn adlewyrchu dull pob oed y Bwrdd	<ul style="list-style-type: none"> Gwella strwythur agenda adran drawsbynciol y cyfarfodydd Grwpiau Gweithredol Lleol i sicrhau bod trafodaeth ar y cyd ar faterion diogelu pob oedran perthnasol yn cael ystyriaeth 	<ul style="list-style-type: none"> Mae Grwpiau Gweithredol Lleol yn defnyddio dull ar y cyd gyda materion diogelu pob oed
4.2 Mae gan y Bwrdd weledigaeth ddiogelu hirdymor glir	<ul style="list-style-type: none"> Datblygu strategaeth Bwrdd 5 mlynedd i gynnwys nodau hirdymor a chanlyniadau mesuradwy 	<ul style="list-style-type: none"> Datblygir strategaeth Bwrdd 5 mlynedd
4.3 Mae'r Bwrdd wedi gweithredu ei ddylanwad yn effeithiol yn yr agenda diogelu strategol genedlaethol	<ul style="list-style-type: none"> Parhau i weithio gyda'r NISB a Llywodraeth Cymru (LIC) mewn perthynas â datblygu protocol cenedlaethol i ddiogelu plant sy'n dewis cael eu haddysgu gartref Parhau i gymryd rhan yn y gwaith a gomisiynwyd i Fwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro i ailysgrifennu'r Gweithdrefnau Amddiffyn Cenedlaethol 	<ul style="list-style-type: none"> Mae plant sy'n dewis cael eu haddysgu gartref yn cael eu diogelu'n well yng Nghymru Ystyriwyd safbwyntiau rhanbarthol fel rhan o broses ymgynghori Gweithdrefnau Amddiffyn Cenedlaethol
4.4 Mae holl bartneriaid y Bwrdd yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb o ymgysylltu effeithiol a her weithgar	<ul style="list-style-type: none"> Adolygu ac ystyried sut i herio partneriaid yn effeithiol nad ydynt yn ymgysylltu â busnes y Bwrdd a/neu pan fo arfer diogelu proffesiynol yn wael Datblygu polisi rhanbarthol ar gyfer datrys gwahaniaethau proffesiynol rhwng asiantaethau a gweithwyr proffesiynol 	<ul style="list-style-type: none"> Mae asiantaethau'n cael eu dwyn i gyfrif pan fydd ymgysylltiad yn wael a/neu ymarfer diogelu'n disgyn islaw'r safonau disgwylidig Gweithwyr proffesiynol y bartneriaeth ranbarthol yn gwybod sut i ddwysáu a datrys gwahaniaethau proffesiynol Y Bwrdd yn arddangos her ryngasiantaethol gyson LOGau yn darparu hunanasesiad fel tystiolaeth ar gyfer her gadarn amlasiantaethol
4.5 Mae sefydliadau trydydd sector yn cyfranogi'n llawn yng ngwaith y Bwrdd	<ul style="list-style-type: none"> Gwella cyfranogiad ac ymgysylltiad sefydliadau'r trydydd sector ym myd busnes y Bwrdd 	<ul style="list-style-type: none"> Cynrychiolaeth briodol y trydydd sector yn y Bwrdd Gweithredol a'r holl Is-grwpiau

4.6 Mae'r Bwrdd â gwell goruchwyliaeth o achosion PRUDiC rhanbarthol yn y rhanbarth

- Adolygu, monitro ac olrhain Ymateb Gweithdrefnol i farwolaethau annisgwyl yn ystod plentyndod (PRUDiC) a gwella aliniad gyda'r Broses CPR, yn unol â chanllawiau diwygiedig a gyhoeddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ym mis Ebrill 2018

- Mae cynnydd achosion PRUDiC yn cael eu holrhain a'u monitro

GWARIANT BWRDD ARFAETHEDIG I GYFLAWNI EIN HAMCANION

Awdurdodau Lleol: <ul style="list-style-type: none"> • Ceredigion 15% • Powys 25% • Caerfyrddin 35% • Penfro 25% 	60%	Iechyd: <ul style="list-style-type: none"> • Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda 75% • Bwrdd Iechyd Addysgu Powys 25% 	25%	Cyfanswm: 100%
Heddlu	10%	Gwasanaeth Prawf: <ul style="list-style-type: none"> • Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol 2.5% • Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru 2.5% 	5%	

Gwariant Arfaethedig 2018-19		Cyfraniadau Asiantaeth Arfaethedig 2018-19	
Costau a Chyflogau Staff	94,800	Cyngor Sir Ceredigion	11,052
		Cyngor Sir Powys	18,420
Cyfarpar a meddalwedd TG	1,000	Cyngor Sir Caerfyrddin	25,788
Costau swyddfa, gweinyddol a recriwtio	2,000	Cyngor Sir Benfro	18,420
Teithio, lleoliadau a chyfathrebu	4,000	Heddlu Dyfed Powys	12,280
Cyhoedduswydd, hyrwyddo a chyfieithiadau	1,000	Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol	3,070
Comisiynu ymchwil, prosiectau a gomisiynir yn annibynnol a darparu hyfforddiant rhanbarthol pwrpasol yn allanol	20,000	Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru	3,070
		Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	23,025
		Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	7,675
		Iechyd Cyhoeddus Cymru	0
CYFANSWM	122,800	CYFANSWM	122,800

SUT RYDYM YN CYNNIG CYDWEITHIO GYDA PHOBL NEU GYRFF ERAILL.

Bydd Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn parhau i weithio ar y cyd ac mewn partneriaeth â phob Bwrdd Diogelu arall yng Nghymru, trwy fynychu cyfarfodydd Rheolwyr Busnes a Chydlynwyr Busnes rheolaidd a hwylusir gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys rhannu gwybodaeth yn rheolaidd ac arferion da o ran adolygiadau ymarfer, cydlyniant cenedlaethol o themâu'r Wythnos Genedlaethol Diogelu a chyfathrebu; a digwyddiadau ad-hoc/pwrpasol eraill a drefnir yn allanol.

Bydd y Bwrdd yn parhau i weithio ac ymgysylltu'n agos â'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (NISB) ac yn cefnogi ei waith cenedlaethol mewn perthynas â phlant sy'n dewis cael eu haddysgu gartref, ac mewn perthynas â'r rhyng-gysylltiad rhwng Adolygiadau Ymarfer ac Adolygiadau Dynladdiadau Domestig.

Bydd yn parhau i ymgysylltu a gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar unrhyw faterion o bwysigrwydd cenedlaethol ac ymgysylltu â'r gwaith a gomisiynwyd i Fwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro i ailysgrifennu'r Gweithdrefnau Amddiffyn Cenedlaethol.

Yn y flwyddyn i ddod, mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i gryfhau ei berthynas â sefydliadau'r trydydd sector gyda phwyslais arbennig ar ymgysylltu â gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol a sefydliadau i hyrwyddo a chefnogi agenda VAWDASV (Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol).

Bydd y Bwrdd yn ceisio cryfhau ac adolygu sut mae'n ymgysylltu â fforymau a phartneriaethau rhanbarthol ehangach, gan gynnwys y Byrddau Partneriaeth rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Awdurdodau Lleol

SUT RYDYM YN RHOI'R CYFLE I BOBL A EFFEITHIWDYD GAN WAITH Y BWRDD I GYFRANOGI

Comisiynodd Bwrdd CYSUR Wasanaeth Eiriolaeth Annibynnol Tros Gynnal i hwyluso ei Fwrdd Diogelu Iau Rhanbarthol CADW (RJSB). Mae'r aelodaeth yn cynnwys plant a phobl ifanc o bob cwr o'r pedair sir. Mae'r grŵp yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn, sy'n cynnwys digwyddiad preswyl blynyddol. Bydd y grŵp yn parhau i roi cyngor a gwybodaeth i'r Bwrdd Gweithredol yn ystod y flwyddyn i ddod ar amrywiaeth o faterion diogelu, sy'n bwysig ac yn berthnasol i bobl ifanc.

Yn ogystal â'r Bwrdd CADW rhanbarthol, mae gan bob un o'r pedair sir leol, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Phowys, eu Grwpiau Diogelu Iau Lleol a'u trefniadau eu hunain. Mae'r rhain wedi'u halinio'n agos â thri allan o'r pedwar Grŵp Gweithredol Lleol (LOG), lle mae aelodau iau yn mynychu ac yn darparu gwybodaeth i gyfarfodydd LOG ar faterion diogelu lleol i bobl ifanc. Bydd hyn yn parhau yn y flwyddyn i ddod, wrth i'r Bwrdd geisio sicrhau bod y gwaith parhaus hwn yn canolbwyntio mwy ar adlewyrchu blaenoriaethau strategol y Bwrdd, a bod y grŵp yn cyrraedd grŵp ehangach o blant a phobl ifanc, fel bod eu safbwyntiau a'u profiadau yn cael eu cynrychioli'n ddigonol.

Hyd yn hyn, mae cyfleoedd i Ddefnyddwyr Gwasanaethau sy'n Oedolion ymgysylltu â gwaith y Bwrdd wedi bod yn gyfyngedig, gan fod y maes hwn yn llai sefydledig. Bydd hwn yn ffocws allweddol ar gyfer Bwrdd CWMPAS yn y flwyddyn i ddod, fel yr amlinellir yn y canlyniadau strategol a nodwyd a'r amcanion â blaenoriaeth.

Am ragor o wybodaeth am Fwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru, ewch i'n gwefan:

:

<http://cysur.cymru> or <http://cwmpas.cymru/>

SUT I ROI GWYBOD AM BRYDER

Os ydych chi'n amau bod plentyn, person ifanc neu oedolyn **mewn perygl o niwed ar unwaith, ffoniwch 999** a siaradwch gyda'r Heddlu.

Os hoffech chi roi gwybod am ddigwyddiad **nad yw'n frys** neu fod gennych broblem neu ymholiad cyffredinol, gallwch ffonio rhif nad ydyw'n frys 24 awr yr Heddlu ar **101**.

Os ydych chi'n poeni am ddiogelwch neu les plentyn, mae dyletswydd arnoch i roi gwybod am hyn ar unwaith - cysylltwch â:

SIR GAERFYRDDIN:

Yn ystod Oriau Swyddfa:

Tîm Atgyfeirio Canolog – Ffôn: 01554 742322, Ffacs: 01554 742176

E-bost: CRTChildren@carmarthenshire.gov.uk

Y Tu Allan i Oriau Swyddfa: Llinell ofal – Ffôn: 01558 824283 & 0300 333 2222

CEREDIGION:

Yn ystod Oriau Swyddfa: Y Ganolfan Gyswllt – Ffôn: 01545 574000, Ffacs: 01545 574002

E-bost: contact-socservs@ceredigion.gov.uk

Y Tu Allan i Oriau Swyddfa: Tîm Dyletswydd Argyfwng – Ffôn: 0845 6015392

SIR BENFRO:

Yn ystod Oriau Swyddfa: Tîm Asesu - Ffôn: 01437 776444

Email: ccat@pembrokeshire.gov.uk

Y Tu Allan i Oriau Swyddfa: Tîm Dyletswydd Argyfwng – Ffôn: 08708 509508

[mae gwasanaeth ymateb meddygon ar alwad yn cymryd galwadau y tu allan i oriau swyddfa]

POWYS:

Ffôn: 01597 827666, Fax: 01597 827553

E-bost: people.direct@powys.gov.uk

Os ydych chi'n poeni am ddiogelwch neu les oedolyn, mae dyletswydd arnoch i roi gwybod am hyn ar unwaith - cysylltwch â:

SIR GAERFYRDDIN:

Gwasanaeth IAA ar 0300 333 2222 trwy Minicom ar: 01554 756741 neu trwy SMS: 07892

345678 neu gallwch atgyfeirio trwy ein gwefan www.carmarthenshire.gov.uk

E-bost: cat@carmarthenshire.gov.uk

CEREDIGION:

Yn ystod Oriau Swyddfa: Y Ganolfan Gyswllt – Ffôn: 01545 574000, Ffacs: 01545 574002

E-bost: contact-socservs@ceredigion.gov.uk

Y Tu Allan i Oriau Swyddfa: Tîm Dyletswydd Argyfwng – Ffôn: 0845 6015392

SIR BENFRO:

Yn ystod Oriau Gwaith: Tîm Diogelu Oedolion - Ffôn: 01437 776056 (dim cyfleuster ffacs)

Email: adult.protection.team@pembrokeshire.gov.uk

Y tu hwnt i Oriau Gwaith: Tîm ar Ddyletswydd mewn Argyfwng – Ffôn: 08708 509508

[mae gwasanaeth ymateb meddygon ar alwad yn cymryd galwadau gwasanaethau cymdeithasol y tu hwnt i oriau]

POWYS:

Ffôn: 01597 827666, Fax: 01597 827553

E-bost: people.direct@powys.gov.uk